Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

# HARRI, MASTR, neu Syr HARRI (15fed ganrif), bardd

**Enw:** Harri
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

o Gydweli, Sir Gaerfyrddin, a oedd, yn ôl ei deitl, yn ŵr mewn urddau eglwysig; dywedir mai offeiriad Llandyfaelog oedd ef, ond ni wyddys am ddim i ategu hyn. Enwir ef yn Harri (ap) Hywel mewn rhai llawysgrifau (e.e. Hafod MS. 3), a ' Syr ' Harri ap Rhys yn NLW MS 566B ; gelwir ef yn Mastr Harri ap Hywel, a hefyd yn Harri Hir yn Cwrtmawr MS 200B . Cadwyd peth o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau, ac yn ei phlith gywyddau ymryson â'r bardd Ieuan Tew. Bu dau ymryson rhyngddynt; cychwynnwyd y naill gan Ieuan pan ganodd gywydd serch i rywun, ac yntau, yn ôl Mastr Harri, yn hen ŵr; Mastr Harri a ddechreuodd yr ail drwy gyhuddo Ieuan o fynd â mwy na'i ran o ŷd degwm.

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

*Llawysgrifau Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* I (312). 2 (497)

Archifau LlGC: Cwrtmawr MS 202B (113, 118)

*Llawysgrif Gwysaney yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, 25 (58)

Archifau LlGC: NLW MS 552B (44b), NLW MS 566B (80b), NLW MS 643B (126b), NLW MS 5265B (11b), NLW MS 5269B (133b), NLW MS 5272C (78), NLW MS 6511B (150), NLW MS 6681B (188), NLW MS 11816B (30)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733134

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Looker, R., (1953). HARRI, MASTR, neu Syr HARRI (15fed ganrif), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HARR-HYW-1400

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government